**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD MAWRTH, 5 TACHWEDD 2019 DYDD MAWRTH, 5 TACHWEDD 2019**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: M. CROSS (CADEIRYDD)

Councillors M. Cook
N. Daniels
G. A. Davies
P. Edwards
K. Hayden
M. Holland
J. Millard
J. C. Morgan
K. Pritchard

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau absenoldeb ar gyfer:-<br><br>Cynghorwyr J. Hill, W. Hodgins, K. Rowson a J. Wilkins. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>***Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.*** | |
| No. 4 | **<u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2019, ar hynny:-<br><br>**<u>Ymddiheuriadau</u>**<br><br>Nodwyd fod y Cynghorydd Julie Holt wedi cyflwyno ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod uchod.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol i'r uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **<u>DRAFFT ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau perthnasol dilynol ynddo:-<br><br>➢ Mae'r adroddiad yn rhoi manylion prif benderfyniadau drafft adroddiad blynyddol 2020/21 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ('y Panel').<br><br>➢ Cyfarfu Aelodau Panel gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel rhan o'r broses ymgynghori. Y safbwynt a fynegwyd yn gyffredinol gan swyddogion ac Aelodau oedd bod llwyth gwaith sylfaenol pob Aelod etholedig yn parhau'n sylweddol, yn neilltuol yng nghyd-destun llymder, ac yn fwy na 3 diwrnod yr wythnos.<br><br>➢ Wrth wneud penderfyniadau ariannol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol, penderfynodd y Panel y dylai fod cynnydd o £350 y flwyddyn i'r lefel cyflog sylfaenol yn 2020/2021, sy'n | |

gyfwerth â 2.5%.

- Nodwyd y dylai pob prif awdurdod yng Nghymru dalu cyflog sylfaenol o £14,218 o 1 Ebrill 2020 i bob un o'i Aelodau etholedig os nad yw Aelod unigol wedi dewis yn bersonol ac mewn ysgrifen i dderbyn swm is.

- Ni thelir unrhyw gynnydd ychwanegol i uwch ddeiliaid cyflog yn 2020/21 - byddai'r Aelodau hyn yn derbyn y cynnydd elfen cyflog sylfaenol.

- Nid oes unrhyw newid i ad-dalu costau gofal, sy'n parhau ar uchafswm o £403 y mis pan ddangosir derbynebau gan y gofalwr. Nodwyd fod y Panel yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd gyda golwg ar annog mwy o ddefnydd gan yr Aelodau hynny sydd â chyfrifoldeb gofalu.

- Yn flaenorol mater i bob prif Gyngor oedd penderfynu sut y cyhoeddir cost gofal. Fodd bynnag, ar gyfer 2020/2021 mae'r Panel wedi dileu'r opsiwn hwn ac wedi dweud ei fod wedi penderfynu mai dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai'r awdurdodau perthnasol ei gyhoeddi.

Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau am yr adroddiad.

- **Ad-dalu Costau Gofal -** canmolodd y Cadeirydd fod y cynigion drafft yn parhau i gynnwys ad-dalu costau gofal ar gyfer yr Aelodau hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu.

  Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd) y cafodd y mater hwn ei drafod yn faith yn nigwyddiad ymgynghori'r Panel. Nodwyd fod y defnydd yn gyffredinol isel yng Nghymru ar gyfer ad-dalu costau gofal ac mae'r Panel, fel yr amlinellir uchod, yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth gyda golwg ar annog mwy o ddefnydd gan yr Aelodau hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu.

  Caiff yr Aelodau hynny sy'n teimlo eu bod angen y gefnogaeth hon eu hannog i gysylltu â'r Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd).

- **Cefnogi Gwaith Aelodau Etholedig –** cyfeiriodd Aelod at

| | | |
|---|---|---|
| | baragraff 2.9.1 yr adroddiad h.y. nad oedd y Panel yn ei hystyried yn briodol y dylai fod yn ofynnol i Aelodau dalu am wasanaethau rhyngrwyd i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cyngor a gofynnodd os y dylai fod terfyn uchaf ar gyfer y ddarpariaeth (er enghraifft £10-£15 y mis).<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod problemau o ran cysylltiad rhyngrwyd mewn rhai rhannau o Gymru ac awgrymodd y dylai'r pwynt perthnasol hwn gael ei drafod gydag aelodau'r Panel.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod rhai rhannau o Gymru yn cael problemau gyda mynediad i'r rhyngrwyd a chyflymder band eang. Fodd bynnag, nid oedd y Panel yn ei hystyried yn briodol fod Aelodau etholedig yn gorfod talu am wasanaethau rhyngrwyd i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cyngor a chaiff sylw'r Aelod ei godi fel rhan o'r broses ymgynghori ar y drafft gynigion.<br><br>CYTUNWYD ar y cam gweithredu hwn.<br><br>➢ **Taliadau i Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned –** mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y byddai'r Cynghorau Tref a Chymuned yn gwybod am yr agwedd yma o'r adroddiad ac y byddent yn cael cyfle i roi sylwadau i'r Panel ar y drafft gynigion.<br><br>Nodwyd fod y Panel yn awyddus i gwrdd â chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned drwy gyfarfod Cydlynu'r Cyngor ac y gwneir trefniadau i'r cynrychiolwyr fynychu Cyfarfod Cydlynu yn y dyfodol.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>CYTUNODD y Cyngor i argymell i'r Cyngor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r penderfyniadau a nodir yn adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | |
| **No. 6** | **ADRODDIAD TREFNIADAU DEMOCRATAIDD A CHYNNYDD CRAFFU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd i gael ei ystyried.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd yn fanwl am yr adroddiad sy'n rhoi sylw i'r trefniadau democrataidd a chynnydd craffu ar gyfer y cyfnod mis Ebrill i fis Medi 2019.<br><br>Daeth y Rheolwr Gwasanaeth i ben drwy dynnu sylw Aelodau at y gostyngiad yn lefel presenoldeb cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu o gymharu â chwarter 1af ac 2il chwarter y flwyddyn ac o gymharu gyda'r un chwarter y flwyddyn flaenorol.<br><br>Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau am yr adroddiad.<br><br>➢ **Ap Mobile Iron -** mynegodd Aelod ei bryder mai dim ond i'r rhai sydd â mynediad i liniadur mae'r fewnrwyd ar gael a gofynnodd os gellid darparu'r un gwasanaeth i Aelodau sy'n cyrchu gwybodaeth ar ddyfeisiau iPad.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai'n ymchwilio'r mater.<br><br>➢ **Modern.Gov –** mynegodd Aelod ei bryder nad oedd yn medru cyrchu gwaith papur agendâu yr awdurdod drwy wefan y Cyngor.<br><br>Esboniodd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd) fod problemau technegol gydag ap Modern.Gov ar hyn o bryd a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda SRS i unioni'r mater. Fodd bynnag, mae gwaith papur agendâu yn dal yn hygyrch yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd J. Millard â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>➢ **Gwe-ddarlledu –** canmolodd y Cadeirydd yr agwedd at we-ddarlledu a dywedodd y gobeithiai y gallai cyfarfodydd o'r Cyngor gael eu gwe-ddarlledu yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod y Cyngor wedi gwe-ddarlledu cyfarfodydd mewn blynyddoedd blaenorol fel cynllun peilot a dywedodd y byddai hefyd yn croesawu gwe-ddarlledu cyfarfodydd yn y dyfodol. | |

- **Presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu/Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau –** mynegodd Aelod ei bryder am nifer y cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu/Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau a gafodd eu canslo neu eu haildrefnu'n ddiweddar a gofynnodd am i'r mater gael sylw.

  Dywedodd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd) y byddai'n edrych ar y mater.

  Dilynodd trafodaeth fer pan fynegodd Aelod arall hefyd ei bryder am lefel isel presenoldeb mewn Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau a chyfarfodydd Pwyllgor Craffu.

  Awgrymodd y Cadeirydd y dylai lefelau presenoldeb gael ei drafod o fewn cyfarfodydd o'r gwahanol grwpiau gwleidyddol.

- **Ap Fy Ngwasanaethau Cyngor –** mewn ymateb i gais, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y byddai'n edrych os oes opsiwn ar gael i hysbysu am nifer o faterion ar unwaith ar ap Fy Ngwasanaethau Cyngor yn hytrach na chyflwyno ceisiadau gwasanaeth unigol. Nodwyd pwysigrwydd defnyddio'r ap i roi gwybod am faterion gan ei fod yn medru casglu a chofnodi gwybodaeth hollbwysig.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell i'r Cyngor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r wybodaeth a gynhwysir o fewn yr adroddiad ac argymell yr adroddiad i'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo.